

JONES, HUMPHREY ('Bryfdir '; 1867 - 1947), bardd ac arweinydd eisteddfodau

Enw: Humphrey Jones
Ffugenw: Bryfdir
Dyddiad geni: 1867
Dyddiad marw: 1947
Priod: Mary Eleanor Jones (née Williams)
Rhiant: Mary Jones (née Roberts)
Rhiant: John Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd ac arweinydd eisteddfodau
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: William Emrys Jones

Ganwyd 13 Rhagfyr 1867, yng Nghwm Croesor, Sir Feirionnydd, mab John Jones, tyddynnwr, a Mary Roberts ei wraig; yr oedd yn ŵyr i Robert Roberts, Erw Fawr, sefydlodd yr ysgol sul yn Llanfrothen. Wedi iddo adael yr ysgol yn 12 oed, aeth i weithio mewn chwarel. Treuliodd ei oes bron yn gyfangwbl ym Mlaenau Ffestiniog; yng nghydol amser daeth i ddal swydd o gyfrifoldeb mewn chwarel. Dysgodd elfennau barddoniaeth gan **Richard Jones Owen** ('Glaslyn ' 1831 - 1909), a chyn bod yn 20 oed yr oedd wedi ennill amryw wobrwyr; cafodd ei dderbyn i Orsedd y Beirdd yn 1890. Enillodd 64 o gadeiriau eisteddfod, ac 8 o goronau arian; yr oedd hefyd yn anfon cynhyrchion i *Cymru (O.M.E.)* a'r *Genhinen*. Fel arweinydd eisteddfodau nodwedid ef gan ffraethineb a'i allu i gadw cynulleidfaoedd mawr mewn trefn. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o ganeuon - *Telynau'r Wawr* a *Bro fy Mebyd a Chaniadau Eraill*. Priododd (1893) Mary Eleanor Williams a bu iddynt 5 o blant. Bu farw 22 Ionawr 1947.

Awdur

William Emrys Jones, (1894 - 1985)

Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

[*Who's who in Wales*, 1937]

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733215

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, W. E., (1970). JONES, HUMPHREY ('Bryfdir '; 1867 - 1947), bardd ac arweinydd eisteddfodau. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-JONE-HUM-1867>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government